| | |
|---|---|
| Teitl y gweithgaredd: | 4. 'Y Kardomah Gang' Mathemateg maethlon |
| Disgrifiad: | Problemau arian yn seiliedig ar fwydlen y Kardomah Café |
| Blynyddoedd: | CA2 |
| Cysylltiad â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd: | **RHIFEDD**<br>**Datblygu ymresymu rhifyddol**<br>**Adnabod prosesau a chysylltiadau**<br>• trosglwyddo sgiliau mathemategol i amrywiaeth o gyd-destunau a sefyllfaoedd bob dydd<br>• adnabod y camau a'r wybodaeth briodol sydd eu hangen er mwyn cwblhau'r dasg neu gyrraedd datrysiad<br>• dewis mathemateg a thechneg briodol i'w defnyddio<br>**Cynrychioli a chyfathrebu**<br>• defnyddio nodiant, symbolau ac unedau mesur priodol<br><br>**Defnyddio sgiliau rhif**<br>**Defnyddio ffeithiau rhif a'r berthynas rhwng rhif**<br>• defnyddio strategaethau meddwl i alw tablau lluosi<br>**Rheoli arian**<br>• defnyddio arian i dalu am eitemau hyd at £10 a chyfrifo'r newid |
| Offer angenrheidiol: | • Bwydlen y Kardomah Café<br>• Taflenni cwestiynau y Kardomah Café |
| Dull: | • Ewch drwy fwydlen y Kardomah Café gyda'r dysgwyr.<br>• Gwnewch rai esiamplau o fathemateg pen gyda'r dysgwyr gan ddefnyddio'r prisiau ar y fwydlen.<br>• Wrth esbonio'r problemau geiriol, anogwch y dysgwyr i danlinellu'r ffeithiau Y bydd eu hangen arnynt i ddatrys y problemau.<br>• Anogwch y dysgwyr i amcangyfrif yr ateb ac yna gwirio bod yr ateb y maent yn ei gael yn gwneud synnwyr.<br>• Lle bo hynny'n berthnasol, anogwch nhw i wirio eu hatebion trwy roi'r gwerthoedd a gafwyd yn ôl mewn i'r problemau geiriol. |
| Gweithgareddau ymestynnol: | Gall y dysgwyr greu eu cwestiynau eu hunain yn seiliedig ar y fwydlen.<br>Gall y dysgwyr greu eu problemau geiriol arian eu hunain a'u rhoi i bartner i'w datrys. |
| Dolenni perthnasol: | Mae mwy o broblemau datrys arian geiriol ar gael yn Saesneg yma - http://www.primaryresources.co.uk/maths/mathsD2.htm |

| | |
|---|---|
| Addasu ar gyfer oedrannau eraill: | Darperir taflenni wedi eu gwahaniaethu. |